# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 30 Mai 2012** |
| Amser: | **09:20 – 12:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_30_05_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Ann Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Ieuan Wyn Jones** |
| Tystion: | **Alan Davies y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Bwyd a Rhaglenni Ewropeaidd, i'r cyfarfod**<br>**Jonathan Price, WEFO**<br>**Damien O'Brien, WEFO** |
| Staff y Pwyllgor: | **Helen Finlayson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Eleanor Roy (Ymchwilydd)**<br>**Tom Jackson (Clerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon
1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

### 2. Effeithiolrwydd Cyllid Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru
2.1 Croesawodd y Cadeirydd Alun Davies, y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Bwyd a Rhaglenni Ewropeaidd, i'r cyfarfod.

2.2 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Dirprwy Weinidog.

Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu:

- Manylion am yr hyfforddiant a gafodd staff Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar roi cyngor i noddwyr prosiectau ynghylch y broses gaffael.
- Nodyn i'r Pwyllgor yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn nhrafodaethau Llywodraeth Cymru â'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch mynd i'r afael â materion cyfreithiol a thechnegol sy'n berthnasol i ffynhonnell gyllido JESSICA, sef y rhaglen Cyd-gymorth Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddi Cynaliadwy mewn Ardaloedd Dinesig.
- Rhagor o fanylion am y trafodaethau sydd i ddod gyda'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni ar yr effaith y gallai'r gyfradd gyfnewid ei chael ar brosiectau ac ar sut y gellir rheoli risgiau posibl.

## 3. Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor y dystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Scottish Futures Trust.

3.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 24 Mai 2012.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitemau 5 a 6.

## 5. Trafod y dystiolaeth - Effeithiolrwydd Cyllid Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd mewn perthynas â'i ymchwiliad i effeithiolrwydd cyllid strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru.

## 6. Cyllid datganoledig: pwerau benthyg a dulliau arloesol o ddefnyddio arian cyfalaf - tystiolaeth allweddol a themâu sy'n dod i'r amlwg

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod tystiolaeth allweddol a themâu sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'i ymchwiliad i gyllid datganoledig: pwerau benthyg a dulliau arloesol o ddefnyddio arian cyfalaf.